Drafft o Asesu Effaith ar Iechyd Pedwerydd Cylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (2027–2033) yng Nghymru

Adroddiad Cryno

Tîm Asesu Amgylcheddol ac Iechyd

Rhif Diwygiad:1 (Ar gyfer ymgynghori)

Cyflwyniad

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer pedwerydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru a'r rhannau o Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru.

Mae'r asesiad wedi'i gwblhau yn unol â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025.

Diben yr asesiad yw deall sut y gall y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd effeithio ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru, nodi effeithiau posibl ar anghydraddoldebau iechyd, ac argymell mesurau i wneud y mwyaf o fuddion iechyd wrth leihau effeithiau niweidiol posibl.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hefyd yn cefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gyfrannu'n benodol at y nodau llesiant canlynol: Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru gydnerth. Mae'r asesiad hefyd yn cefnogi Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang drwy ystyried cyfleoedd i gefnogi ansawdd amgylcheddol, gwydnwch cymunedol, mynediad at fannau glas a gwyrdd, gwarchod asedau naturiol a diwylliannol, rheoli adnoddau yn gynaliadwy, ac addasu i'r hinsawdd.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cydnabod bod llawer o'r materion yn ymwneud ag iechyd, llesiant a thegwch yn cael eu hystyried yn rhai sy'n bodoli eisoes ac yn cael eu dylanwadu arnynt gan ystod eang o ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y tu hwnt i gwmpas y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Felly, mae'r asesiad yn ystyried sut y gall y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, a'u gweithrediad, gyfrannu at wella'r amodau hyn, cynyddu cyfleoedd i wella iechyd i'r eithaf, helpu i fynd i'r afael â risgiau ac anghydraddoldebau presennol, ac osgoi neu liniaru canlyniadau anfwriadol.

Canfyddiadau allweddol ar yr olwg gyntaf

Canfu'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fod pedwerydd cylch Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn gyfle pwysig i gyfrannu at fuddion hirdymor sylweddol ar gyfer iechyd a llesiant ledled Cymru drwy warchod a gwella'r amodau amgylcheddol sy'n cefnogi cymunedau iachach a mwy gwydn.

Mae'r cyfleoedd allweddol a nodwyd gan yr asesiad yn cynnwys:

- ansawdd dŵr gwell, gan leihau cysylltiad â llygryddion, pathogenau a halogion niweidiol
- afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol wedi'u gwella, gan gefnogi hamdden, gweithgarwch corfforol a llesiant meddyliol
- mwy o wydnwch i lifogydd, sychder a newid hinsawdd, gan helpu i leihau'r risgiau i gymunedau, gwasanaethau a seilwaith

- bioamrywiaeth well, ansawdd amgylcheddol gwell, a mynediad gwell at fannau glas a gwyrdd
- cyfleoedd i leihau anghydraddoldebau iechyd drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu a gwella'r amgylchedd

Mae'r cyfleoedd hyn yn arbennig o berthnasol i gymunedau sy'n wynebu anfantais amgylcheddol ar hyn o bryd, gan gynnwys cymunedau o amddifadedd, cymunedau gwledig, defnyddwyr cyflenwadau dŵr preifat, cymunedau arfordirol, a chymunedau sy'n wynebu perygl uwch o lifogydd. Bydd y graddau y gwireddir y buddion hyn yn dibynnu ar weithredu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn llwyddiannus ochr yn ochr â pholisïau, buddsoddiad a chamau gweithredu ehangach ar draws sefydliadau a sectorau perthnasol.

Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hefyd bwysau presennol a chanlyniadau anfwriadol posibl y mae angen eu hystyried wrth weithredu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau o ran fforddiadwyedd, buddion yn cael eu dosbarthu yn anghyson, rhwystrau cyfathrebu a hygyrchedd, cyfyngiadau ar y gweithlu a'r capasiti i gyflawni, a heriau llywodraethiant. Mae rhai'n deillio o'r cyd-destun ehangach y mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cael eu cyflawni ynddo, tra gallai eraill gael eu creu neu eu gwaethygu trwy eu gweithredu os na chânt eu rheoli'n briodol. Canfu'r asesiad y gellir lleihau'r risgiau hyn yn gyffredinol drwy gynllunio effeithiol, cymorth targedig, ymgysylltiad parhaus a gweithredu cymesur.

Nodwyd pedair blaenoriaeth strategol fel rhai hanfodol er mwyn cyflawni'r cynlluniau yn llwyddiannus:

- cryfhau llywodraethiant ac atebolrwydd
- targedu ymyriadau at gymunedau sy'n profi'r anghydraddoldebau mwyaf
- gwella cymorth i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys defnyddwyr cyflenwad dŵr preifat
- monitro deilliannau iechyd, llesiant a thegwch ochr yn ochr â deilliannau amgylcheddol

Beth yw'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd?

Cynlluniau strategol a baratowyd o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 yw Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Maent yn disgrifio cyflwr afonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol, yn nodi'r prif bwysau sy'n effeithio arnynt, ac yn nodi'r camau gweithredu y mae eu hangen i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr.

Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn mabwysiadu dull rheoli dŵr sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd, gan gydnabod y cysylltiadau rhwng dŵr, ecosystemau, cymunedau a gweithgarwch economaidd. Wedi'u cyhoeddi gyntaf yn 2009, cânt eu hadolygu a'u diweddaru bob chwe blynedd. Mae pedwerydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2027 a 2033 ac yn adeiladu ar gylchoedd cynllunio blaenorol

trwy dystiolaeth wedi'i diweddaru, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a gwersi a ddysgwyd o'u gweithredu.

Mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd y pedwerydd cylch yn cael eu datblygu yn ystod cyfnod o newid sylweddol o ran polisïau a rheoleiddio sy'n berthnasol i ddŵr. Yn 2024, sefydlodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru'r Comisiwn Dŵr Annibynnol, dan arweiniad Syr Jon Cunliffe, i ystyried diwygiadau i'r sector dŵr a'r fframwaith rheoleiddio. Tynnodd y comisiwn sylw at bwysigrwydd creu sector dŵr gwydn a chynaliadwy sy'n cyflawni gwelliant amgylcheddol, gwydnwch hinsawdd a buddion i gymunedau.

O berthnasedd arbennig i'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hwn, cydnabu'r comisiwn bwysigrwydd cynyddol ymgorffori iechyd y cyhoedd wrth reoli dŵr a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y buddion iechyd a llesiant ehangach sy'n gysylltiedig ag amgylcheddau dŵr iach. Ynghyd â datblygiadau cyfreithiol a rheoleiddiol diweddar, mae'r newidiadau hyn yn atgyfnerthu'r gydnabyddiaeth gynyddol bod amgylcheddau dŵr iach yn hanfodol, nid yn unig ar gyfer adferiad ecolegol, ond hefyd ar gyfer iechyd y cyhoedd, llesiant, a'r gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Ardal yr astudiaeth

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd hwn yn cwmpasu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru a'r rhannau o Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru.
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith o baratoi Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru ac afon Dyfrdwy ac yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar ardaloedd basnau afonydd trawsffiniol afon Dyfrdwy ac afon Hafren.


Gyda'i gilydd, mae'r ardaloedd basnau afonydd hyn yn cwmpasu cymunedau ledled Cymru ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwarchod a gwella afonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol.

Mae **Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru** yn cwmpasu tua 16,653 km² ac yn ymestyn o Fro Morgannwg yn y de i Sir Ddinbych yn y gogledd.

Mae **Ardal Basn Afon Dyfrdwy** yn cwmpasu tua 2,251 km² ar draws gogledd-ddwyrain Cymru ac yn ymestyn i rannau cyfagos o Loegr.

Mae **Ardal Basn Afon Hafren** yn cwmpasu mwy na 21,000 km² ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar ddalgylchoedd Cymru, gan gynnwys afonydd Gwy ac Wysg a chymunedau ar draws de-ddwyrain a chanolbarth Cymru.

Ffigur 1: Gorllewin Cymru a'r rhannau o Ardal Basn Afon Dyfrdwy ac Ardal Basn Afon Hafren sydd yng Nghymru, gyda ffiniau awdurdodau lleol



Sut y cynhaliwyd yr asesiad

Dilynodd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd y fethodoleg a ddatblygwyd gan Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru ac fe'i cynhaliwyd ochr yn ochr â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Casglwyd tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys proffil poblogaeth a chymunedau ar gyfer Cymru, gweithdai rhanddeiliaid, ymatebion i ymgynghoriadau, ymgysylltiad ag arbenigwyr, ac adolygiad o lenyddiaeth wyddonol a pholisi berthnasol.

Er mwyn asesu effeithiau posibl y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar iechyd, adolygwyd y rhaglen o fesurau a'r materion sylweddol yn ymwneud â rheoli dŵr a'u grwpio'n gyfres o glystyrau iechyd thematig. Roedd hyn yn cydnabod bod llawer o bwysau amgylcheddol yn

dylanwadu ar iechyd trwy lwybrau cyffredin, gan gynnwys ansawdd dŵr, cysylltiad â chemegion a microbau, llifogydd, gwydnwch hinsawdd, mynediad at fyd natur, diogelwch dŵr yfed, a ffactorau cymdeithasol, economaidd a llywodraethiant ehangach.

Aseswyd mesurau drwy lwybrau uniongyrchol, megis dod i gysylltiad â dŵr halogedig neu berygl o llifogydd, a llwybrau anuniongyrchol neu lefel system, megis effeithiau ar lesiant meddwl, gwydnwch cymunedol, ansawdd amgylcheddol, amodau economaidd a hyder y cyhoedd.

Roedd y dull clystyru yn galluogi'r asesiad i ystyried effeithiau cronnol a rhyngweithiol ar draws yr amgylchedd dŵr, yn hytrach nag asesu mesurau unigol ar eu pen eu hunain. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth fwy realistig o sut y gallai'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd effeithio ar iechyd, llesiant ac anghydraddoldebau iechyd ar raddfeydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Ystyriodd yr asesiad iechyd corfforol, llesiant meddyliol, penderfynyddion ehangach iechyd, anghydraddoldebau iechyd, ac effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol a chronnol. Darperir matrics manwl ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn Atodiad A.

Grwpiau poblogaeth a ystyriwyd

Ystyriodd yr asesiad effeithiau ar boblogaeth Cymru gyfan wrth gydnabod y gallai rhai grwpiau gael eu heffeithio arnynt yn wahanol oherwydd amgylchiadau iechyd, cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol presennol.

Ystyriwyd cymunedau sy'n profi amddifadedd, cymunedau gwledig, defnyddwyr cyflenwadau dŵr preifat, plant a phobl ifanc, oedolion hŷn, cymunedau arfordirol, cymunedau sy'n agored i lifogydd, llygredd neu anfantais amgylcheddol, a phobl sy'n byw â chyflyrau iechyd hirdymor yn benodol. Ystyriwyd hefyd effeithiau posibl ar ffermwyr, busnesau gwledig, a chymunedau sy'n profi buddion lluosog. Darperir gwybodaeth fanwl am y grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt yn Atodiad A.

Nid yw ystyried y grwpiau hyn yn awgrymu bod y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn gyfrifol am anghydraddoldebau neu wendidau presennol; yn hytrach, mae'n helpu i nodi lle gallai gweithredu ddarparu cyfleoedd ar gyfer mwy o welliant o ran iechyd neu lle gallai effeithiau anfwriadol effeithio'n anghymesur ar boblogaethau penodol.

Crynodeb o effeithiau iechyd

Canfu'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fod gan bedwerydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd y potensial i gyfrannu at fuddion iechyd a llesiant cadarnhaol sylweddol ledled Cymru. Mae llawer o'r buddion hyn yn deillio o'r berthynas agos rhwng ansawdd amgylcheddol ac iechyd pobl. Drwy gefnogi gwelliannau yng nghyflwr afonydd, llynnoedd, aberoedd, dŵr daear a dyfroedd arfordirol, mae gan y cynlluniau'r potensial i ddylanwadu

ar iechyd a llesiant, gwydnwch cymunedau, a'r amodau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach sy'n llunio iechyd.

Nododd yr asesiad ystod o lwybrau uniongyrchol, anuniongyrchol a lefel system y gall y cynlluniau a'u gweithrediad gael dylanwad drwyddynt. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau cysylltiad â llygryddion a phathogenau, gwella ansawdd dŵr yfed, cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd ac effeithiau newid hinsawdd, gwella mynediad at fannau glas a gwyrdd, cryfhau llesiant cymunedol, a chefnogi mwy o hyder mewn rheolaeth amgylcheddol.

At ei gilydd, aseswyd bod y rhan fwyaf o'r effeithiau disgwyliedig yn gadarnhaol ac yn hirdymor eu natur, ac yn fwyaf tebygol o gael eu gwireddu pan weithredir rhaglenni mesurau perthnasol yn llwyddiannus. Nodwyd bod gwelliannau i ansawdd dŵr, diogelwch dŵr yfed, y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth ac adferiad byd natur yn meddu ar y potensial mwyaf i gyfrannu at fuddion o ran iechyd a llesiant.

Roedd yr asesiad hefyd yn cydnabod pwysau presennol ochr yn ochr â nifer o effeithiau niweidiol neu anfwriadol posibl. Mae rhai o'r pwysau hyn yn bodoli'n annibynnol ar y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, tra gall eraill godi neu gael eu gwaethygu trwy eu gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau fforddiadwyedd, costau cydymffurfio a rheoleiddio i fusnesau a rheolwyr tir, aflonyddwch dros dro sy'n gysylltiedig â gweithgareddau adeiladu ac adfer, a'r risg na chaiff buddion eu dosbarthu'n deg ar draws cymunedau. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn nodi cyfleoedd i weithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd i helpu i fynd i'r afael â phwysau presennol wrth sicrhau bod effeithiau niweidiol newydd neu ychwanegol yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru.

Iechyd corfforol

Nododd yr asesiad ystod o ddeilliannau iechyd corfforol cadarnhaol y gallai gweithredu'r cynlluniau gyfrannu atynt. Disgwylir i welliannau o ran ansawdd dŵr leihau cysylltiad â llygryddion, pathogenau a halogion niweidiol, gan helpu i warchod iechyd y cyhoedd a gwella diogelwch dyfroedd hamdden. Disgwylir hefyd i fesurau i warchod adnoddau dŵr yfed a chryfhau cydnerthedd cyflenwadau dŵr gyfrannu at ddeilliannau iechyd gwell, yn enwedig i gymunedau sy'n fwy agored i risgiau amgylcheddol.

Gall gwella gwydnwch yn erbyn llifogydd, sychder ac effeithiau newid hinsawdd ddarparu buddion sy'n ymestyn y tu hwnt i warchod pobl, eiddo a seilwaith. Mae'r rhain yn cynnwys llai o risgiau i iechyd, dibynadwyedd gwell gwasanaethau hanfodol, a chymunedau sy'n fwy gwydn i bwysau amgylcheddol yn y dyfodol. Mae effeithiau niweidiol posibl ar iechyd corfforol sy'n gysylltiedig yn benodol â chyflawni mesurau'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn gysylltiedig yn bennaf ag aflonyddwch tymor byr sy'n deillio o waith adeiladu, adfer a gwella seilwaith.

Iechyd meddwl a llesiant

Canfu'r asesiad dystiolaeth gref y gall amgylcheddau dŵr iachach a mwy hygyrch gefnogi deilliannau iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol. Pan fydd mesurau Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cyfrannu at welliannau o ran afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd

arfordirol, gallant wella cyfleoedd ar gyfer hamdden, gweithgarwch corfforol ac ymgysylltu â byd natur, sydd i gyd yn gyfranwyr cydnabyddedig at lesiant.

Gall mannau glas a gwyrdd glanach a mwy deniadol hefyd gryfhau balchder cymunedau, cefnogi rhyngweithio cymdeithasol, annog gwirfoddoli a stiwardiaeth cymunedau, a chyfrannu at ymdeimlad cryfach o le. Gall gwella gwydnwch yn erbyn llifogydd ac effeithiau newid hinsawdd leihau ymhellach y pryder sy'n gysylltiedig â risgiau amgylcheddol, cryfhau hyder cymunedau, a gwella llesiant cyffredinol.

Gall effeithiau niweidiol posibl ar lesiant godi pan fydd cymunedau'n profi ansicrwydd ynghylch newid amgylcheddol, aflonyddwch sy'n gysylltiedig â chyflawni mesurau neu newidiadau i ddefnydd tir, neu pan na chaiff gwelliannau amgylcheddol disgwyliedig eu gwireddu o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Mae pwysau eraill o ran iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys gorbryder sy'n gysylltiedig â llifogydd, llygredd a dirywiad amgylcheddol, yn bodoli eisoes ac yn cael eu dylanwadu arnynt gan amrywiaeth o ffactorau. Gall gweithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â'r pwysau hyn a chefnogi gwell llesiant.

Penderfynyddion ehangach iechyd

Mae llawer o'r cyfleoedd pwysicaf a nodwyd gan yr asesiad yn ymwneud â phenderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys yr amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae pobl yn byw ynddynt. Mae gan y cynlluniau'r potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd amgylcheddol, bioamrywiaeth, gwydnwch hinsawdd, mynediad at fyd natur, cyfleoedd hamdden, cydlyniant cymunedau, a gwydnwch cymunedau a seilwaith.

Mae gan y gwelliannau hyn y potensial i greu amodau sy'n cefnogi bywydau iachach a chymunedau mwy cynaliadwy yn yr hirdymor. Fodd bynnag, gall rhai mesurau arwain at gostau ychwanegol, newidiadau gweithredol neu ofynion rheoleiddiol ar gyfer aelwydydd, busnesau, ffermwyr a rheolwyr tir. Os na chânt eu rheoli'n briodol, gallai'r effeithiau hyn effeithio ar fforddiadwyedd, bywoliaeth a chanfyddiadau o degwch.

Anghydraddoldebau iechyd

Un o ganfyddiadau allweddol yr asesiad yw bod y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn darparu cyfleoedd pwysig i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd presennol ledled Cymru. Mae llawer o'r pwysau amgylcheddol a ystyrir gan y cynlluniau, gan gynnwys ansawdd dŵr gwael, llifogydd, dirywiad amgylcheddol, a mynediad cyfyngedig at fannau glas a gwyrdd o ansawdd uchel, eisoes yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau sy'n profi deilliannau iechyd gwaeth ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'n debyg y bydd y cyfleoedd mwyaf ar gyfer gwella iechyd yn cael eu gwireddu lle mae buddsoddi ac ymyriadau'n cael eu targedu at gymunedau o amddifadedd, cymunedau gwledig, defnyddwyr cyflenwadau dŵr preifat, cymunedau arfordirol, ac ardaloedd sydd mewn mwy o berygl o lifogydd. Drwy gyfrannu at amodau amgylcheddol gwell yn yr ardaloedd hyn, mae gan y cynlluniau'r potensial i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r ffactorau sylfaenol sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd.

Nododd yr asesiad fod defnyddwyr cyflenwadau dŵr preifat yn grŵp poblogaeth arbennig o bwysig sydd angen sylw parhaus wrth weithredu'r cynlluniau oherwydd eu bod yn agored i risgiau microbiolegol, cemegol, seilwaith a sychder, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o bosibl.

Gall gwella gwydnwch yn erbyn llifogydd, sychder a newid hinsawdd hefyd gyfrannu at leihau anghydraddoldebau pan fo camau gweithredu wedi'u targedu at gymunedau sy'n wynebu'r anfanteision amgylcheddol mwyaf.
Gall buddion gynnwys llai o orbryder a straen sy'n gysylltiedig â risgiau amgylcheddol, gwasanaethau hanfodol â mwy o wydnwch, a gwell mynediad at gyfleoedd ac asedau cymunedol.

Fodd bynnag, ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd deilliannau yn gadarnhaol. Gallai anghydraddoldebau iechyd ehangu os yw buddion yn cael eu dosbarthu'n anwastad, os yw pwysau fforddiadwyedd yn creu beichiau ychwanegol i aelwydydd a busnesau agored i niwed, neu os yw rhai cymunedau'n wynebu rhwystrau i wybodaeth ac ymgysylltiad neu sy'n eu hatal rhag cael mynediad at welliannau amgylcheddol. Felly, bydd gweithredu effeithiol, buddsoddi wedi'i dargedu ac ymgysylltu cynhwysol yn hanfodol i sicrhau bod buddion y cynlluniau'n cael eu rhannu'n deg ledled Cymru.

Camau lliniaru, camau gwella a chamau â blaenoriaeth

Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ystod o fesurau a allai sicrhau'r deilliannau iechyd a llesiant mwyaf posibl, helpu i fynd i'r afael â gwendidau presennol, a lleihau effeithiau niweidiol posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae'r rhain yn cynnwys blaenoriaethu buddsoddi mewn cymunedau o amddifadedd, gwledig a risg uchel, diogelu fforddiadwyedd i aelwydydd agored i niwed, cefnogi ffermwyr a busnesau gwledig trwy'r cyfnod pontio, cryfhau diogelwch cyflenwadau dŵr preifat, gwella mynediad at fannau glas a gwyrdd, a gwella'r broses o fonitro'r amgylchedd, iechyd a llesiant.

Canfyddiad cyson ar draws yr asesiad oedd y bydd graddfa a dosbarthiad y deilliannau iechyd a llesiant y mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn dylanwadu arnynt yn dibynnu ar gyflawni'r cynlluniau'n llwyddiannus. Er bod y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn darparu fframwaith cryf ar gyfer gwella amodau amgylcheddol sy'n cefnogi iechyd a llesiant, maent yn rhan o system ehangach o bolisïau, ymyriadau a chyfrifoldebau cyflawni ac ni allant bennu'r deilliannau ar eu pen eu hunain. Bydd gweithredu effeithiol, adnoddau priodol, llywodraethiant cryf, ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid a thargedu ymyriadau'n deg i gyd yn hanfodol wrth benderfynu a gyflawnir y buddion disgwyliedig a'u rhannu'n deg ar draws cymunedau.

Nododd yr asesiad hefyd nifer o faterion trawsbynciol presennol a materion sy'n gysylltiedig â gweithredu a allai ddylanwadu ar gyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys llywodraethiant ac atebolrwydd, anghydraddoldebau iechyd ac amgylcheddol,

fforddiadwyedd, capasiti'r gweithlu, cyfathrebu a hygyrchedd, diogelu cyflenwadau dŵr preifat, a monitro deilliannau iechyd a llesiant ochr yn ochr â deilliannau amgylcheddol.

Nodwyd pedair blaenoriaeth strategol fel rhai hanfodol er mwyn cyflawni'r cynlluniau yn llwyddiannus:

1. Cryfhau llywodraethiant ac atebolrwydd
2. Targedu anghydraddoldebau iechyd ac amgylcheddol
3. Gwella cymorth i gymunedau agored i niwed a chymunedau sydd mewn mwy o berygl
4. Monitro deilliannau iechyd, llesiant a thegwch ochr yn ochr â deilliannau amgylcheddol

Mae mesurau lliniaru a gwella manwl wedi'u nodi yn y matrics ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd (Atodiad A). Mae'r mesurau hyn wedi'u datblygu i wneud y mwyaf o ddeilliannau iechyd a llesiant cadarnhaol, lleihau effeithiau niweidiol posibl, a gwneud defnydd o gyfleoedd a gyflwynir trwy gyflawni Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd i helpu i fynd i'r afael â'r gwendidau a'r anghydraddoldebau presennol. Darperir rhagor o wybodaeth am faterion gweithredu trawsbynciol a blaenoriaethau strategol yn Atodiad B.

Monitro ac adolygu yn y dyfodol

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn parhau i fod yn asesiad byw drwy gydol y cyfnod o ddatblygu a gweithredu pedwerydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

Bydd monitro a gwerthuso yn archwilio i ba raddau y mae canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau a gweithredu, a yw mesurau lliniaru a gwella wedi'u cyflawni, a yw effeithiau disgwyliedig ar iechyd a llesiant yn digwydd, a sut y gallai'r cynlluniau fod yn cyfrannu at newidiadau mewn anghydraddoldebau iechyd dros amser. Bydd monitro hefyd yn ystyried profiadau cymunedau a rhanddeiliaid, gan gynnwys a yw gwelliannau amgylcheddol yn cael eu cyflawni'n deg ac a yw unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn dod i'r amlwg yn ystod y gweithredu.

Nododd yr asesiad angen penodol i gryfhau dealltwriaeth o'r berthynas rhwng gwelliannau amgylcheddol a deilliannau iechyd a llesiant. Mae newidiadau yn iechyd a llesiant y boblogaeth yn cael eu dylanwadu arnynt gan ffactorau lluosog ac ni ellir eu priodoli'n gyffredinol i'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn unig. Fodd bynnag, gall monitro helpu i nodi a yw'r amodau y gwyddys eu bod yn cefnogi gwell iechyd, llesiant a chydnerthedd yn gwella dros amser, a'r cyfraniad y gallai gweithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd fod yn ei wneud at yr amodau hynny. Felly, dylai trefniadau monitro ystyried dangosyddion amgylcheddol ochr yn ochr â mesurau ehangach o lesiant, gwydnwch, mynediad at fyd natur a dosbarthiad teg o fuddion.

Bydd y canfyddiadau'n cefnogi rheolaeth addasol, yn llywio cylchoedd adolygu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn y dyfodol, ac yn helpu i nodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o fuddion iechyd a llesiant wrth leihau effeithiau niweidiol posibl.

Casgliad cyffredinol

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn dod i'r casgliad bod pedwerydd cylch y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cynnig cyfle sylweddol i gyfrannu at welliannau hirdymor o ran iechyd a llesiant pobl ledled Cymru.

Gall gwelliannau o ran ansawdd dŵr, diogelwch dŵr yfed, ansawdd amgylcheddol, bioamrywiaeth, y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, a mynediad at fannau glas a gwyrdd gefnogi deilliannau iechyd a llesiant corfforol a meddyliol cadarnhaol wrth gyfrannu at lesiant cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach. Nododd yr asesiad hefyd gyfleoedd pwysig i'r broses o weithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gyfrannu at wydnwch cymunedol, gwella llesiant, gwella mynediad at fyd natur, a lleihau anghydraddoldebau iechyd presennol.

Mae llawer o'r buddion posibl hyn yn arbennig o berthnasol i gymunedau sy'n wynebu anfantais amgylcheddol ar hyn o bryd, gan gynnwys cymunedau o amddifadedd, cymunedau gwledig, defnyddwyr cyflenwadau dŵr preifat, cymunedau arfordirol, a chymunedau sydd mewn mwy o berygl o lifogydd. Felly, gallai gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd mewn ffordd deg a thargedig wneud cyfraniad pwysig tuag at Gymru iachach a mwy cyfartal.

At ei gilydd, nododd yr asesiad effeithiau posibl cadarnhaol yn bennaf ar iechyd a llesiant, y cafodd y rhan fwyaf ohonynt eu hasesu fel rhai cymedrol i fawr o ran maint, tebygol neu wedi'u cadarnhau o ran tebygolrwydd, a hirdymor o ran oes. Nododd yr asesiad hefyd bwysau a gwendidau presennol, ochr yn ochr ag effeithiau niweidiol posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau fforddiadwyedd, gofynion rheoleiddio, rhwystrau cyfathrebu a dosbarthu buddion. Pan fydd effeithiau'n codi o ganlyniad i weithredu, ystyrir yn gyffredinol y gellir eu lleihau drwy fesurau lliniaru priodol a chyflawni wedi'i dargedu. Mae pwysau a gwendidau presennol yn cynnig cyfleoedd i'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd gyfrannu at gamau gweithredu ehangach i fynd i'r afael â nhw.

Yn bwysig, bydd gwireddu'r buddion iechyd a llesiant disgwyliedig yn dibynnu nid yn unig ar weithredu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn effeithiol, ond hefyd ar bolisïau, buddsoddiad a chamau gweithredu ehangach ar draws sefydliadau a sectorau perthnasol. Bydd llywodraethiant ac atebolrwydd cryf, digon o adnoddau a chapasiti yn y gweithlu, buddsoddiad teg, cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, a monitro parhaus o ddeilliannau iechyd a llesiant yr amgylchedd a'r boblogaeth yn hanfodol.

At ei gilydd, mae Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn gyfle sylweddol i gyfrannu at greu a chryfhau'r amodau amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol sy'n cefnogi deilliannau iechyd a llesiant gwell wrth gyfrannu at Gymru iachach, fwy cyfartal, fwy gwydn a mwy cynaliadwy.